



# Adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol

# Ysgol Llanaelhaearn

- Rhagfyr 2019

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **CYFLWYNIAD** | |
| | 1.1 | Y Sefyllfa yng Ngwynedd |
| | 1.2 | Polisi Iaith |
| | 1.3 | Cefndir Addysgol |
| **2.** | **PROFFIL IEITHYDDOL DALGYLCH LLANAELHAEARN** | |
| | 2.1 | Cefndir Proffil Iaith Gwynedd |
| | 2.2 | Wardiau |
| | 2.3 | Ysgol Llanaelhaearn |
| | 2.4 | Ysgolion Cyfagos |
| | 2.5 | Lefelau Cyrhaeddiad |
| | 2.6 | Gweithgareddau ar ôl ysgol |
| | 2.7 | Gweithgareddau Cymunedol |
| | 2.8 | Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 |
| | 2.9 | Tystiolaeth Ychwanegol |
| **3.** | **EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG** | |
| | 3.1 | Opsiynau |
| | 3.2 | Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith |
| **4.** | **CASGLIAD** | |

# 1. CYFLWYNIAD

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau iaith yn allweddol bwysig i strategaethau addysg y Sir.

## 1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2011 yn nodi fod 65,900 (56%) o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2011 hefyd yn nodi bod 65% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigwr yn 69%.

Yng Ngwynedd, fel mewn sawl Awdurdod Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Ar un eithaf, mewn wardiau megis Aberdyfi, Tywyn a ward Menai ym Mangor, mae rhwng 18% a 38% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bod cymaint â 78% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig e.e. Llanrug.

## 1.2 Polisi Iaith

**Cynradd**

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

**Uwchradd**

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11.

Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyfedr ddwyieithog.

## 1.3 Cefndir Addysgol

Mabwysiadwyd strategaeth "Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" gan y Cyngor yn Ebrill 2009. Datblygwyd a chefnogwyd uwch strategaeth "Rhaglen Strategol - Tuag at 2025" gan y Cyngor yn Hydref 2010. Darparwyd y ddogfen fel sylfaen strategol i osod cyfeiriad i ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd am y 15 mlynedd nesaf. Cyflwynwyd y rhaglen yng nghyd-destun y polisïau a chynlluniau sydd ar y gweill, yn lleol a chenedlaethol i drawsnewid gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Cyhoeddwyd "Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017-2020" yn Rhagfyr 2017 sydd yn gosod gweledigaeth, ymrwymiad a chyfeiriad ar gyfer sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

## 2. PROFFIL IAITH DALGYLCH LLANAELHAEARN

### 2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae bron i dri chwarter poblogaeth y Sir wedi eu geni yng Nghymru (66.8%). Mae 65.4% o'r boblogaeth sydd dros dair oed yn siaradwyr Cymraeg – sylweddol uwch na'r ffigwr trwy Gymru gyfan o 19%. Yn gyffredinol, ceir cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rheini a gaiff eu geni yng Nghymru tuag at y gorllewin a symud yn fewndirol o'r ardaloedd mwy poblog ar yr arfordir. Yng Ngwynedd, mae'r gallu i siarad Cymraeg uchaf yn ward Llanrug (mae 87.8% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yn ardal Menai o Fangor (18.6%).

### 2.2 Wardiau

#### 2.2.1 Wardiau Llanaelhaearn, Abererch, Llanystumdwy ac Efailnewydd

Mae dalgylch presennol ysgolion Llanaelhaearn, Yr Eifl a rhan o ddalgylch ysgol Llangybi o fewn ward Llanaelhaearn (Swyddfa Ystadegol Gwladol), gyda dalgylch Ysgol Bro Plenydd a rhan o ddalgylch Ysgol Pentreuchaf o fewn ward Abererch, dalgylch ysgolion Chwilog a rhan o ddalgylch Llangybi o fewn ward Llanystumdwy, a gweddill dalgylch Ysgol Pentreuchaf o fewn ward Efailnewydd/Buan. Mae proffil ieithyddol wardiau'r ysgolion hyn wedi ei grynhoi yn y tabl isod:

| | Llanaelhaearn | Abererch | Llanystumdwy | Efailnewydd / Buan | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hunaniaeth Gymreig yn unig | 1,157 (68.7%) | 928 (68.5%) | 1,392 (66.9%) | 832 (65.3%) | 71,931 (59.0%) | 1,761,673 (57.5%) |
| Dim hunaniaeth Gymreig | 460 (27.3%) | 337 (24.9%) | 580 (27.9%) | 371 (29.1%) | 42,566 (34.9%) | 1,045,775 (34.1%) |
| Aelwydydd ble mae gan o leiaf un person iaith gyntaf arall i Gymraeg neu Saesneg | 8 (0.5%) | 11 (0.8%) | 6 (0.3%) | 6 (0.5%) | 1,463 (1.2%) | 42,581 (1.4%) |
| Poblogaeth 3+ mlwydd oed | 1,621 (96.3%) | 1,315 (97.1%) | 2,017 (97%) | 1,231 (96.5%) | 117,789 (96.6%) | 2,995,841 (96.5%) |
| Gallu siarad Cymraeg | 1,197 (73.8%) | 1,050 (79.8%) | 1,553 (77%) | 915 (74.3%) | 77,000 (65.4%) | 562,016 (19.0%) |
| Dim sgiliau Cymraeg | 315 (19.4%) | 185 (14.1%) | 347 (17.2%) | 260 (21.1%) | 31,177 (26.5%) | 2,167,987 (73.3%) |
| Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig | 90 (5.6%) | 70 (5.3%) | 100 (5%) | 50 (4.1%) | 8,125 (6.9%) | 157,792 (5.3%) |
| Gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | 98 (6.0%) | 80 (6.1%) | 76 (3.8%) | 58 (4.7%) | 6,838 (5.8%) | 80,429 (2.7%) |
| Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 45 (2.8%) | 42 (3.2%) | 64 (3.2%) | 41 (3.3%) | 3,947 (3.4%) | 45,524 (1.5%) |
| Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 1,049 (64.7%) | 926 (70.4%) | 1,406 (69.7%) | 814 (66.1%) | 65,921 (56.0%) | 430,717 (14.6%) |
| Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg | 24 (1.5%) | 12 (0.9%) | 24 (1.2%) | 8 (0.6%) | 1,781 (1.5%) | 73,392 (2.5%) |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegol Gwladol*

## 2.3 Ysgol Llanaelhaearn

Ysgol Cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Llanaelhaearn.

Dengys y tabl isod bod nifer y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl gartref yn 6, sydd yn 55% o'r disgyblion (PLASC 2019).

**Gwybodaeth Ieithyddol ar gyfer Ysgol Llanaelhaearn**

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg o gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llanaelhaearn** | 6 (55%) | 1 (9%) | 1 (9%) | 3 (27%) | 0 (0%) | **11** |

Ffynhonnell: Data gan Benaethiaid PLASC Ionawr 2019

## 2.4 Ysgolion cyfagos

Ysgolion cyfrwng Cymraeg yw ysgolion Bro Plenydd, yr Eifl, Llangybi, Pentreuchaf a Chwilog, fel gweddill ysgolion Gwynedd. Mae data ieithyddol yr ysgolion hyn i'w gweld yn y tabl isod:

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg o gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bro Plenydd** | 62 (83%) | 5 (6%) | 2 (3%) | 2 (3%) | 4 (5%) | **75** |
| **Yr Eifl** | 48 (83%) | 2 (3%) | 3 (5%) | 1 (2%) | 4 (7%) | **58** |
| **Llangybi** | 21 (57%) | 0 (0%) | 7 (19%) | 2 (5%) | 7 (19%) | **37** |
| **Pentreuchaf** | 83 (84%) | 9 (9%) | 3 (3%) | 3 (3%) | 1 (1%) | **99** |
| **Chwilog** | 41 (84%) | 3 (6%) | 0 (0%) | 2 (4%) | 3 (6%) | **49** |

Ffynhonnell: Data gan Benaethiaid PLASC Ionawr 2019

## 2.5 Lefel Cyrhaeddiad

| Ysgolion | % y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefel disgwyliedig – Cymraeg (iaith gyntaf) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfnod Sylfaen (Cyrraedd canlyniad 5+) | | | CA2 (cyrraedd o leiaf lefel 4) | | |
| | **2017** | **2018** | **2019** | **2017** | **2018** | **2019** |
| **Llanaelhaearn** | 100% | -* | 0% | -* | 100% | 100% |
| **Bro Plenydd** | 100% | 92.3% | 100% | 100% | 90.9% | 100% |
| **Yr Eifl** | 80% | 75% | 66.7% | 62.5% | 100% | 83.3% |
| **Llangybi** | 75% | 71.4% | 66.7% | 100% | 100% | 75% |
| **Pentreuchaf** | 92.9% | 84.2% | 83.3% | 100% | 100% | 100% |
| **Chwilog** | 100% | 66.7% | 87.5% | 100% | 100% | 100% |

**Nid oedd disgyblion yn y flwyddyn addysgol berthnasol y flwyddyn hon.*

*Ffynhonnell: GwE (Medi 2019)*

Gwelwn fod amrediad eang o lwyddiant pan mae'n dod i gyrhaeddiad academaidd ysgolion yr ardal. Mae dros 75% o ddisgyblion CA2 wedi llwyddo i gyrraedd y lefel disgwyliedig (Cymraeg – Iaith) ym mhob ysgol llynedd, gan gynnwys 100% o Ysgolion Llanaelhaearn a Bro Plenydd. Mae amrediad eang o ganlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen rhwng Ysgol Llanaelhaearn ac Ysgol Bro Plenydd.

Fel rhan o weithredu'r Siarter Iaith, mae holl ddisgyblion CA2 pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn cwblhau holiadur gwe iaith am eu defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol ddwywaith y flwyddyn. Dyma ystadegau Hydref 2018 am y defnydd mae'r disgyblion yn ei wneud o'r Gymraeg gyda'u athrawon:

| Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r athrawon (ar wahân i wersi Saesneg) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
| Ysgol Llanaelhaearn | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Bro Plenydd | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Yr Eifl | 96% | 0% | 4% | 0% | 0% |
| Ysgol Pentreuchaf | 98% | 2% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Chwilog | 95% | 0% | 2.5% | 0% | 2.5% |

| Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r cymhorthyddion (ar wahân i wersi Saesneg) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
| Ysgol Llanaelhaearn | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Bro Plenydd | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Yr Eifl | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Pentreuchaf | 95% | 3% | 0% | 0% | 2% |
| Ysgol Chwilog | 95% | 0% | 5% | 0% | 0% |

| Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo gweddill staff yr ysgol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
| Ysgol Llanaelhaearn | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Bro Plenydd | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Yr Eifl | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Pentreuchaf | 98% | 2% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Chwilog | 95% | 0% | 5% | 0% | 0% |

| Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo plant yn y dosbarth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
| Ysgol Llanaelhaearn | 40% | 60% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Bro Plenydd | 95% | 5% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Yr Eifl | 88.5% | 11.5% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Pentreuchaf | 83% | 17% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Chwilog | 91% | 0% | 4.5% | 0% | 4.5% |

| Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r plant ar y coridor ac yn y neuadd ginio | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
| Ysgol Llanaelhaearn | 60% | 40% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Bro Plenydd | 92% | 8% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Yr Eifl | 81% | 4% | 15% | 0% | 0% |
| Ysgol Pentreuchaf | 75% | 25% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Chwilog | 91% | 0% | 4.5% | 0% | 4.5% |

| Canran y plant sy’n siarad Cymraeg ar iard yr ysgol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob Amser | Yn Aml | Weithiau | Ychydig Iawn | Byth |
| Ysgol Llanaelhaearn | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Bro Plenydd | 86% | 14% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Yr Eifl | 46% | 31% | 11.5% | 11..5% | 0% |
| Ysgol Pentreuchaf | 50% | 40% | 10% | 0% | 0% |
| Ysgol Chwilog | 77% | 18% | 0% | 0% | 5% |

| Canran y plant sy’n hyderus wrth siarad Cymraeg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Hyderus iawn | Hyderus | Gweddol hyderus | Ddim yn hyderus | Ddim yn hyderus o gwbl |
| Ysgol Llanaelhaearn | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Bro Plenydd | 92% | 5% | 3% | 0% | 0% |
| Ysgol Yr Eifl | 88% | 8% | 4% | 0% | 0% |
| Ysgol Pentreuchaf | 82% | 13% | 5% | 0% | 0% |
| Ysgol Chwilog | 95% | 5% | 0% | 0% | 0% |

| Canran y plant sy’n meddwl ei bod hi’n bwysig siarad Cymraeg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pwysig iawn | Pwysig | Gweddol bwysig | Ddim yn bwysig | Ddim yn bwysig o gwbl |
| Ysgol Llanaelhaearn | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Bro Plenydd | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Yr Eifl | 96% | 4% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Pentreuchaf | 78% | 18% | 4% | 0% | 0% |
| Ysgol Chwilog | 91% | 9% | 0% | 0% | 0% |

Gwelwn yn ôl y data uchod fod defnydd o’r Gymraeg yn uchel yn ysgolion yr ardal. Ar y cyfan, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yr holl ysgolion yn defnyddio’r Gymraeg wrth siarad gyda athrawon a staff. Gwelwn fod defnydd anffurfiol o’r iaith – ar yr iard a gyda disgyblion eraill, fymryn yn llai. Wedi dweud hynny, dengys y data mai Cymraeg yw prif iaith gymdeithasol ysgolion yr ardal.

Mae plant Llanaelhaearn i gyd yn defnyddio’r Gymraeg i siarad gyda’r athrawon, cymhorthyddion a staff, fel y mae disgyblion Ysgol Bro Plenydd. Mae canran uwch o blant yn Ysgol Bro Plenydd yn gwneud defnydd anffurfiol o’r Gymraeg – gyda’u gilydd yn y dosbarth, ac ar yr iard, a rhagwelir y byddai trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr iaith ac yn cynyddu’r cyfleon i blant Llanaelhaearn i ddefnyddio’r Gymraeg wrth gymdeithasu.

Nifer o ymatebion:
Ysgol Llanaelhaearn: 5
Ysgol Chwilog: 22
Ysgol Pentreuchaf: 60
Ysgol yr Eifl: 26
Ysgol Bro Plenydd: 37
*Ysgol Llangybi: sampl yn rhy fychan*

## 2.6 Gweithgareddau ar ôl ysgol

Yn bresennol, nid oes gweithgareddau ar ôl ysgol yn cael eu cynnal yn Ysgol Llanaelhaearn.

Dyma grynodeb o'r hyn mae'r ysgolion eraill cyfagos yn eu cynnig ar ôl ysgol:

| | Llanaelhaearn | Yr Eifl | Chwilog | Bro Plenydd | Pentreuchaf | Llangybi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | | | | | | ✓ |
| **Aelwyd yr Urdd** | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Bore/Noson Goffi** | | | ✓ | | | |
| **Cylch/Ysgol Feithrin** | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon** | | ✓ | | | ✓ | ✓ |

Gwelir yn y tabl uchod fod nifer o ysgolion yr ardal, gan gynnwys Ysgol Bro Plenydd, fod clybiau'r Urdd yn cael eu cynnal yno ar ôl ysgol, y gallai'r disgyblion fanteisio arnynt fel cyfle ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg.

## 2.7 Gweithgareddau Cymunedol

Nid oes gweithgareddau cymunedol yn cael eu cynnal yn Ysgol Llanaelhaearn ar hyn o bryd. Mae neuadd gymunedol Y Ffôr ar safle Ysgol Bro Plenydd, ac mae'r Ysgol yn cael defnyddio'r gofod hwn yn ogystal. Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Y Ffôr, sydd yn cynnwys neuadd, swît gyfrifiaduron, ac ystafell snwcer.

## 2.8 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020

Mae'r ddwy ysgol, Ysgol Llanaelhaearn ac Ysgol Bro Plenydd, yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar, gan sicrhau bod disgyblion o gefndir Saesneg yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosib.
- Yn y cyfnod sylfaen, adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg fel pwnc yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gan roi sylw i ddatblygu sgiliau darllen, siarad ac ysgrifennu yn yr iaith honno. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Yn CA2, parhau i ddatblygu meistrolaeth disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Fe fyddai'r gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cyd-fynd ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20.

## 2.9 Tystiolaeth Ychwanegol

**Ysgol Llanaelhaearn**

Mae adroddiad Estyn yn 2015 yn dweud:

*"Daw 60% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg" a bod "patrwm o gynnydd i'w weld dros y tair blynedd diwethaf yng nghanran y disgyblion a gyrhaeddodd y deilliant disgwyliedig mewn iaith ar ddiwedd y ddau gyfnod".*

(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Gynradd%20Gymunedol%20Llanaelhaearn.pdf)

**Ysgol Bro Plenydd**

Mae gwefan yr ysgol yn dweud:

*"Bydd Ysgol Bro Plenydd yn anelu at gael pob plentyn i siarad Cymraeg yn rhugl. Byddwn hefyd yn anelu at feithrin ymdeimlad o Gymreictod a pharch at y Gymraeg ym mhob plentyn"*

Mae adroddiad Estyn 2015 yn dweud:

*"Daw ychydig dros hanner o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg" ac " Mae bron pob disgybl yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac yn gywir ar draws yr ysgol."*

(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Bro%20Plenydd%202015.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf)

**Ysgol yr Eifl**

Mae adroddiad Estyn 2014 yn dweud:

*"Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf. Nid oes yr un disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig"*

(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Yr%20Eifl%202014.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf)

**Ysgol Llangybi**

Mae adroddiad Estyn 2018 yn dweud:

*"Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2."*

(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Llangybi.pdf)

**Ysgol Pentreuchaf**

Mae adroddiad Estyn 2019 yn dweud:

*"Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn dangos balchder tuag at yr iaith a gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol. Yn ystod eu cyfnod yno, mae rhan fwyaf ohonynt yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus ac yn gwneud cynnydd da."*

(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Pentreuchaf.pdf)

**Ysgol Chwilog**

Mae adroddiad Estyn 2013 yn dweud:

*"Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Mae 89% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref. Nid oes unrhyw ddisgybl o gefndir ethnig lleiafrifol yn yr ysgol ar hyn o bryd"*

(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Gynradd%20Chwilog%202013_0.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf)

# 3. EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

## 3.1 Opsiynau

Mae'r asesiad hwn wedi ei gynnal ar ddau fodel a fyddai'n cynnig manteision o gymharu â sefyllfa bresennol yr ysgol, sef ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill, neu gau yr ysgol a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.

Mae'r modelau hynny, yn ychwanegol i wneud dim a pharhau gyda'r sefyllfa bresennol, wedi eu manylu isod:

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio. Byddai Pennaeth Strategol ar Ysgol Llanaelhaearn, Garndolbenmaen a Chwilog a byddai'n treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu gan athro llawn amser ac uwch-gymhorthydd.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill*

Byddai Ysgol Llanaelhaearn yn ffurfio Ffederasiwn ffurfiol, gyfreithiol gyda un neu fwy o'r Ysgolion cyfagos. Golyga hyn fod yr ysgolion yn parhau ar wahân ond fod y Cyrff Llywodraethu yn cael eu diddymu, a bod un Corff Llywodraethol yn cael ei ethol ar gyfer y Ffederasiwn. Yn ddaearyddol, yr ysgolion a fyddai'n rhesymol i'w hystyried fyddai un neu fwy o'r ysgolion canlynol; Yr Eifl, Llangybi, Bro Plenydd, Chwilog a Pentreuchaf.

Byddai cyllidebau yr ysgolion yn parhau ar wahân.

Ni ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Llanaelhaearn yn parhau, gyda chyfleon i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth, a chydweithio ar gyfer ysgol .

- *Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golyga hyn fod Ysgol Llanaelhaearn yn cau, a'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd (yr ysgol amgen).

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn cynnwys asesiad o effaith cau Ysgol Llanaelhaearn ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, ar yr iaith Gymraeg o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r tabl hefyd yn amlinellu'r cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cryfhau'r iaith Gymraeg, a dulliau lliniaru unrhyw effaith negyddol a allai ddeillio o'r model.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith | Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif | Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru) |
|---|---|---|---|---|
| **Iaith yr ysgol** | Mae Ysgol Llanaelhaearn yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng. Byddai'r cynnig o drosglwyddo disgyblion i Ysgol Bro Plenydd ddim yn cael effaith ar iaith addysg y plant oherwydd bod yr ysgol amgen hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg.<br><br>Gall y cynnig gryfhau cyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion. | Niwtral<br><br>Dim effaith ar sefyllfa iaith yr ysgol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg** | Mae'r ysgol amgen eisoes yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, felly ni ellir rhagweld unrhyw fudd ychwanegol i hyn. | Niwtral<br><br>Dim effaith ar sefyllfa'r iaith | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Darpariaeth anstatudol** | Byddai gan ddisgyblion fynediad at ystod ehangach o adnoddau addas, cyflenwad uwch yn nhermau staffio, a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion. | Positif | Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Bro Plenydd drafod dulliau o annog y disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. | Positif |
| **Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol** | Byddai gan y disgyblion fynediad at ystod ehangach o gyfleusterau addas tu allan i'r ystafell ddosbarth, byddai mwy o athrawon a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion.<br><br>Mae ysgol fwy yn cynnig mwy o amrediad o weithgareddau. Mae'n bosib bydd rhaid i rai rhieni deithio ymhellach (i Ysgol Bro Plenydd) er mwyn i'r disgyblion gael mynychu gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol. | Positif<br><br>Mwy o gyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg | Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Bro Plenydd drafod dulliau o hwyluso bod gweithgareddau ar ôl ysgol mor gyfleus a bo modd i'r holl ddisgyblion | Positif |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd 74% o boblogaeth ward Llanaelhaearn yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r ysgol amgen hefyd o fewn ward gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg (80% yn ward Abererch).<br><br>Byddai addysg Gymraeg yn parhau i gael ei ddarparu i ddisgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn yn Ysgol Bro Plenydd. Gallai cynyddu cyfleon i'r disgyblion gymdeithasu yn y Gymraeg a mynediad at fwy o weithgareddau gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg tu allan i'r ysgol ac yn y gymuned. | Positif<br><br>Mwy o gyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg | Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen drafod dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol o drefnu gweithgareddau tu allan i 'r ysgol. | Positif |

## 4. CASGLIAD


Wedi ystyried ystod o opsiynau posibl ar gyfer y dyfodol, mae’r Cyngor yn cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020, a chynnig addysgu’r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, o’r 1af o Fedi 2020. Fel rhan o’r broses ymgynghori statudol, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi asesiad o’r effaith ieithyddol o’r cynnig i ad-drefnu ysgol – dyma ddiben y ddogfen hon.

Ein disgwyliadau yw bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys a gallu perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o’r Gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Bydd angen i’r cynigion ar gyfer newid trefniadau lleol gymryd ystyriaeth lawn o’r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a gwell defnydd o’r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith plant yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn yr ardal.

Ni ragwelir unrhyw newid i sefyllfa ieithyddol Ysgol Llanaelhaearn wrth barhau gyda’r sefyllfa bresennol, nac wrth ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill, gan nad yw’r opsiynau hyn yn cynnig unrhyw newid o safbwynt darpariaeth addysg ym mhentref Llanaelhaearn.

Byddai’r opsiwn o gau yr ysgol a’r disgyblion i gael eu haddysgu yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, yn golygu fod disgyblion ysgol Llanaelhaearn yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel y maent yn bresennol, ac mewn ysgol ble defnyddir y Gymraeg yn gymdeithasol gan y disgyblion. Nodir fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Bro Plenydd yn gryf iawn, gyda 83% o’r disgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg. O’i gymharu, mae 54% o ddisgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn dod o gartrefi Cymraeg.

Daethpwyd i gasgliad wedi ystyried y wybodaeth sydd yn yr asesiad hwn, na fyddai’r cynnig o gau Ysgol Llanaelhaearn a’r disgyblion i’w haddysgu yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, yn cael effaith negyddol ar yr iaith. Fel nodir eisoes, mae canran uwch o blant o gartrefi Cymraeg yn Ysgol Bro Plenydd. Fel canlyniad, bydd mwy o gyfleoedd i blant Llanaelhaearn ddefnyddio’r Gymraeg gyda’u cyfoedion yn y dosbarth, ac yn gymdeithasol yn ogystal. Cydnabyddir fod Ysgol Llanaelhaearn wedi gweithio’n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y plant a hyrwyddo diwylliant Cymraeg. Nodir felly ei bod yn bwysig i gydnabod yr angen i gefnogi a pharhau gyda’r gwaith hwn pe byddai’r cynnig yn cael ei gymeradwyo.




# Adroddiad Asesu Effaith ar y Gymuned Ysgol Llanaelhaearn

- Rhagfyr 2019

## Cynnwys

1. CYFLWYNIAD

2. OPSIYNAU

3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

4. YSGOLION Y DALGYLCH

5. ASESIAD O'R EFFAITH DEBYGOL AR Y GYMUNED

6. CASGLIADAU

## 1. CYFLWYNIAD

Ar y 4ydd o Fehefin 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg '*gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i drafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol*' o ganlyniad i bryderon yr Adran Addysg ynghylch cwymp sylweddol mewn niferoedd yn mynychu'r ysgol.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn cynnwys 'Rhagdybiaeth yn erbyn Cau Ysgol Wledig'. Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei ddynodi fel Ysgol Wledig at ddiben y Cod.

Golyga hyn, fel rhan o'r broses statudol, mae angen asesu'r effaith debygol ar y gymuned, yn achos pob opsiwn rhesymol, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Mae'r asesiad hwn yn deillio o ganllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion, yn cynnwys ystyriaethau ynglŷn ag anghenion unigryw ardaloedd gwledig.

*"Mewn rhai ardaloedd, efallai mai ysgol fydd y prif ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol hefyd, a gallai ei chau arwain at oblygiadau y tu hwnt i ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd benodol mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgolion fel man i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol."*

*"Dylai'r achos a gaiff ei baratoi gan y rhai sy'n cyflwyno'r cynigion ddangos bod effaith cau'r ysgol ar y gymuned wedi'i hasesu drwy lunio Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a dangos sut y gellid cynnal unrhyw gyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd."*
Ffynhonnell: Cod Trefniadaeth Ysgolion 011 /2018

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae gan yr Ysgol gapasiti Meithrin i Flwyddyn 6 o 53, gyda 8 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol (Cyfrifiad Medi 2019). Mae'r disgyblion i gyd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn.

Mae niferoedd disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol wedi lleihau yn sylweddol ers 2013, pan fu dros 40 o ddisgyblion yn yr ysgol.

Mae'r 8 disgybl sydd bellach yn mynychu yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth gyda thri disgybl mewn un dosbarth a pum disgybl yn y llall.

Ar y 24ain o Fehefin 2019, cynhaliwyd cyfarfod i adolygu sefyllfa'r ysgol, ble cynigwyd nifer o opsiynau i'w hystyried ar gyfer dyfodol yr ysgol. Bu cyfarfodydd dilynol ym mis Medi i werthuso'r opsiynau gan adnabod yr opsiynau a fyddai'n rhesymol i geisio datrys yr her y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion.

Ar y 5ed o Dachwedd 2019, cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffor, ar y 1af Medi 2020.

## 2. OPSIYNAU

Mae'r asesiad hwn wedi ei wneud ar ddau fodel a fyddai'n cynnig manteision o gymharu â sefyllfa bresennol yr ysgol, sef ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill, neu gau'r ysgol a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.

Mae'r modelau hynny, yn ychwanegol i wneud dim a pharhau gyda'r sefyllfa bresennol, wedi eu manylu isod.

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio. Byddai Pennaeth Strategol ar Ysgol Llanaelhaearn, Garndolbenmaen a Chwilog a byddai'n treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu gan athro llawn amser ac uwch-gymhorthydd.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill*

Byddai Ysgol Llanaelhaearn yn ffurfio model ffederal ffurfiol, gyfreithiol gydag ysgol neu ysgolion eraill cyfagos. Yn ddaearyddol, yr ysgolion a fyddai'n rhesymol i'w hystyried byddai un neu fwy o'r ysgolion canlynol; Yr Eifl, Llangybi, Bro Plenydd, Chwilog, neu Pentreuchaf.

Golyga hyn fod yr ysgolion yn parhau ar wahân ond fod y Cyrff Llywodraethu yn cael eu diddymu, a bod un Corff Llywodraethol yn cael ei ethol ar gyfer y Ffederasiwn.

Byddai cyllidebau'r ysgolion yn parhau fel y maen nhw, ond gyda chyfleon i gryfhau arweinyddiaeth o fewn yr ysgolion a chynyddu ar gyfleon i gydweithio ar draws y ffederasiwn.

- *Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golyga hyn fod Ysgol Llanaelhaearn yn cau, a'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd (yr ysgol amgen).

# 3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

## 3.1 Yr Ardal

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn, sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon yng Ngwynedd. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys y pentref ac ardal gyfagos, sydd wedi ei leoli rhwng dalgylchoedd Ysgolion Yr Eifl (Trefor), Ysgol Llangybi, Ysgol Bro Plenydd (Y Ffôr) ac Ysgol Pentreuchaf.

Dengys data diweddaraf (cyfrifiad 2011) fod poblogaeth ward Llanaelhaearn yn 1,683.

## 3.2 Yr Economi

Mae 65.9% o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Llanaelhaearn yn weithgar yn economaidd, a 5.8% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 34.1% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 17.6% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (15.3%) yn gweithio yn y maes iechyd a gwaith cymdeithasol.

Yn ôl data 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014)' mae cyfradd cyflogaeth ward Llanaelhaearn o gymharu â wardiau eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1095 allan o 1909 o wardiau. Nid yw ward Llanaelhaearn felly o fewn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Yn 1974, sefydlwyd Antur Aelhaearn, menter gymdeithasol, gyda'r nod o greu gwaith yn lleol i gadw teuluoedd a phobl ifanc yn yr ardal, gan gyflwyno nifer o brosiectau, a chynlluniau yn lleol. Mae'r Antur yn dal yn weithredol heddiw ac yn weithgar ar brosiectau megis datblygu'r capel nad yw bellach mewn defnydd.

Mae nifer o fusnesau yn weithredol yn y pentref, gan gynnwys becws, modurdy, tŷ gwely a brecwast, a chwmni harddwch anifeiliaid anwes.

## 3.3 Amddifadedd

Mae Ward Llanaelhaearn (sydd yn ardal ehangach nac arwynebedd daearyddol dalgylch yr ysgol) yn y 40% o wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (ranc o 622 allan o 1909 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Nodir fod ward Llanaelhaearn o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Yn ogystal, mae ward Llanaelhaearn o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Mae crynodeb isod o sut mae ardal Llanaelhaearn wedi ei leoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014):

| Maes | Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd.<br>1 = mwyaf difreintiedig<br>1909 = lleiaf difreintiedig | Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru |
|---|---|---|
| Cyflogaeth | 1095 | |
| Incwm | 778 | O fewn y 40-50% mwyaf difreintiedig |
| Iechyd | 1075 | |
| Addysg | 994 | O fewn y 40-50% mwyaf difreintiedig |
| Tai | 88 | O fewn y 0-10% mwyaf difreintiedig |
| Amgylchedd ffisegol | 1651 | |
| Mynediad i wasanaethau | 15 | O fewn y 0-10% mwyaf difreintiedig |
| Diogelwch cymunedol | 1046 | |

## 3.4 Y Gymuned

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yn Llanaelhaearn, gan gynnwys;

- Cylch Ti a Fi
- Merched y Wawr
- Cyrsiau amrywiol yn y Ganolfan
- Pwyllgor Cae Chwarae
- Eisteddfod Gadeiriol Aelhaearn
- Pwyllgor Cofeb Aelhaearn
- Pwyllgor Llywio
- Cyngor Plwyf

Yn ogystal, mae nifer o gyfleusterau yn y pentref, gan gynnwys Eglwys St Aelhaearn / Mynwent, Meddygfa, Cartref Henoed, Becws, Canolfan y Babell, Cae Chwarae, Cae Pêl droed ac Antur Aelhaearn. Mae Aelodau Antur Aelhaearn hefyd wedi bod yn gweithio ar brosiect i ddatblygu’r Capel yn adnodd i’r gymuned, sydd drws nesaf i’r Ganolfan ac mae’r gwaith ail doi wedi’i wneud. Hefyd, mae prosiect gardd ar y gweill.

## 4. YSGOLION Y DALGYLCH

### 4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn bydd awduron yr adroddiadau, sef yr arolygwyr, yn gosod yr ysgolion o fewn cyd-destun ac yn manylu ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Llanaelhaearn gan arolygwyr Estyn.

**Ysgol Llanaelhaearn**

*"Lleolir Ysgol Gymunedol Llanaelhaearn ym mhentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon yng Ngwynedd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos"*

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Ebrill 2015

### 4.2 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion

Dengys y tabl isod niferoedd ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos eraill, o Flwyddyn Meithrin i Flwyddyn 6. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti'r ysgolion, a'r nifer o lefydd gweigion. Mae pob un o'r ysgolion hyn yn ysgol gymunedol, ac yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

| Ysgol | **Capasiti Llawn** (M – Bl6) | **Nifer ar y gofrestr** Medi 2019 (M – Bl6) | **Nifer o Lefydd Gwag** 2019 (M – Bl6) | Categori Cyfreithiol |
|---|---|---|---|---|
| **Llanaelhaearn** | 53 | 8 | 45 | **Ysgol gymunedol** |
| **Bro Plenydd** | 104 | 74 | 30 | **Ysgol gymunedol** |
| **Llangybi** | 80 | 34 | 46 | **Ysgol gymunedol** |
| **Pentreuchaf** | 119 | 98 | 21 | **Ysgol gymunedol** |
| **Yr Eifl** | 62 | 56 | 6 | **Ysgol gymunedol** |
| **Chwilog** | 74 | 52 | 22 | **Ysgol gymunedol** |

***Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2019***

### 4.3 Gwybodaeth lleoliad annedd a dewis ysgolion disgyblion

Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae'n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddisgyblion fynychu eu hysgol dalgylch, mae'r dewis i fyny i rieni (yn unol â'r polisi mynediad).

I gymharu â dalgylchoedd eraill yr ardal, mae nifer o ddisgyblion sy'n symud tu allan i ddalgylch yr ysgol yn uchel. Dengys data diweddaraf o gartrefi disgyblion fod 39 o blant yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn llynedd (*data Medi 2018*), ac roedd 11 ohonynt yn mynychu'r ysgol. Mae hyn bellach wedi lleihau i 8 disgybl. Golyga hyn fod 72% o blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Llanaelhaearn yn mynychu ysgolion all-dalgylch, yn unol â data 2018.

Ysgol arall yn yr ardal sydd â nifer uchel o blant yn mynychu ysgolion all-dalgylch yw dalgylch Ysgol Llangybi, gyda 38% o blant dalgylch Ysgol Llangybi yn mynychu ysgolion all-dalgylch yn 2018, er hynny, mae 9 disgybl yn mynychu ysgol Llangybi sydd yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol. Does dim un disgybl sydd yn byw tu allan i ddalgylch Ysgol Llanaelhaearn yn mynychu'r ysgol.

| | | Dalgylch Cartref / Home Catchment Area (Medi / September 2018) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Llanaelhaearn** | **Bro Plenydd** | **Llangybi** | **Yr Eifl** | **Chwilog** | **Pentreuchaf** | **Arall** | **Cyfanswm Ysgol School Total** |
| **Mynychu Ysgol / School Attending (Medi / September 2018)** | **Llanaelhaearn** | 11 | - | - | - | - | - | - | **11** |
| | **Bro Plenydd** | 6 | 38 | 12 | - | 6 | 2 | 13 | **77** |
| | **Llangybi** | 3 | - | 29 | - | 2 | 1 | 3 | **38** |
| | **Yr Eifl** | - | - | - | 58 | - | - | 1 | **59** |
| | **Chwilog** | - | - | 1 | - | 47 | - | 4 | **52** |
| | **Pentreuchaf** | 5 | 5 | - | 1 | 3 | 39 | 44 | **97** |
| | **Arall** | 14 | 6 | 5 | 5 | 12 | 15 | | |
| **Cyfanswm Dalgylch Catchment Area Total** | | **39** | **49** | **47** | **64** | **70** | **57** | | |

***Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2018***

Mae'r tabl uchod yn dangos y wybodaeth gyflawn o ran lleoliadau byw disgyblion a'i dewis ysgol. Mae'r tabl isod yn crynhoi faint o ddisgyblion sy'n byw ym mhob dalgylch, y nifer sy'n byw yn y dalgylch ac yn mynychu'r ysgol, a'r nifer o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol ond yn byw tu allan i'r dalgylch.

| Ysgol | Nifer yn byw yn y Dalgylch | Nifer o blant y Dalgylch sy'n mynychu'r ysgol | Niferoedd sy'n mynychu'r ysgol o du allan i'r Dalgylch |
|---|---|---|---|
| Llanaelhaearn | 39 | 11 | 0 |
| Yr Eifl | 67 | 58 | 1 |
| Llangybi | 47 | 29 | 9 |
| Bro Plenydd | 49 | 38 | 38 |
| Chwilog | 70 | 47 | 5 |
| Pentreuchaf | 57 | 39 | 58 |

***Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2018***

## 4.4 Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yn y cymunedau gwledig

Mae'r wybodaeth isod wedi ei gasglu ar ardaloedd yr ysgolion a all gael ei effeithio gan unrhyw un o'r opsiynau.

| | Llanaelhaearn | Trefor | Chwilog | Y Ffôr | Pentreuchaf | Llangybi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Gymuned Neuadd Bentref** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **Capel/Eglwys** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Siop** | ✓ (Becws) | ✓ | ✓ (Cigydd) | ✓ | ✓ | |
| **Caffi/Tafarn** | | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| **Swyddfa Bost** | ✓ (Fan) | ✓ | ✓ (Neuadd Bentref) | ✓ | ✓ (Fan) | |
| **Meddygfa/Fferyllfa** | ✓ | ✓ | | ✓ | | |
| **Llyfrgell** | ✓ (Fan) | ✓ (Fan) | ✓ (Fan) | ✓ | ✓ (Fan) | |
| **Cae Chwarae Plant** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Banc** | | | | | | |
| **Cartref Henoed** | ✓ | | | Tai Henoed CG | | |
| **Canolfan Hamdden** | | | | | | |
| **Garej** | ✓ | ✓ | | | | |
| **Atyniad Twristaidd** | ✓ (Tre'r Ceiri) | ✓ | | | | |
| **Cylch Ti a Fi + Meithrin** | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | |

***Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Medi 2019***

Mae gan Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion eraill sydd yn rhan o'r asesiad hwn, 'Gyfeillion yr Ysgol' sydd yn cynnal gweithgareddau er mwyn codi arian er budd yr ysgol a'r disgyblion.

Gan nad oes neuadd yn Ysgol Llanaelhaearn, mae'r ysgol yn gwneud defnydd cyson o Ganolfan y Babell sydd gyfagos.

Cydnabyddir mewn holiadur o'r ardrawiad ar y gymuned fod aelodau'r gymuned yn ymweld â Ysgol Llanaelhaearn yn rheolaidd i gynorthwyo gyda'r profiadau dysgu, a fod gan yr Ysgol fws mini, sydd yn cyfoethogi profiadau y plant drwy eu galluogi i ymweld a ysgolion a safleoedd eraill. Yn wir, mae aelodau o gymuned pob un o'r ysgolion sydd yn rhan o'r asesiad hwn yn ymweld â'r ysgolion i gynnal gweithgareddau gyda'r disgyblion megis clwb garddio neu ddarllen.

### 4.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol

Nid oes defnydd cymunedol o adeilad ysgol Llanaelhaearn ar hyn o bryd. Mae crynodeb o ddefnydd cymunedol neu all-gwricwlaidd o adeiladau'r ysgolion lleol isod:

| | Llanaelhaearn | Trefor | Chwilog | Y Ffôr | Pentreuchaf | Llangybi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | | | | | | ✓ |
| **Aelwyd yr Urdd** | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Dramâu** | | | | | | |
| **Grwpiau Gwirfoddol** | | | | | | |
| **Bore/Noson Goffi** | | | ✓ | | | |
| **Arwerthiant Cymunedol** | | | | | | |
| **Llyfrgell Gymunedol** | | | | | | |
| **Ymarfer Côr** | | | | | | |
| **Cymraeg i Oedolion** | | | | | | |
| **Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned** | | | | | | |
| **Cylch/Ysgol Feithrin** | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon** | | | | | ✓ | ✓ |
| **Clwb ar ôl Ysgol** | | ✓ | | | | |
| **Clwb Diddordeb Lleol** | | | | | | |

***Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Medi 2019***

### 4.6 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw:

| | Llanaelhaearn | Trefor | Chwilog | Y Ffôr | Pentreuchaf | Llangybi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cylchoedd Meithrin/Ti a Fi** | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Adrannau'r Urdd** | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Ymweliadau a Glan Llyn / Llangrannog / Caerdydd** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)** | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

***Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Medi 2019***

### 4.7 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau?

| Ysgol | Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau |
|---|---|
| **Llanaelhaearn** | Nid oes defnydd cymunedol o adeilad Ysgol Llanaelhaearn ar hyn o bryd, ac felly ni fyddai newid petai'r ysgol yn cau.<br><br>Petai gofyn am ddefnydd o adeilad cymunedol, yna mae Canolfan y Babell, sef neuadd gymunedol, wedi ei leoli o fewn 50m o'r ysgol. |

## 4.8 Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch

Mae'r tabl isod yn nodi pellter ac amser teithio rhwng ysgolion yr ardal. Gwelwn mai Ysgol Yr Eifl yw'r agosaf at Ysgol Llanaelhaearn, gyda Ysgol Bro Plenydd yr agosaf wedi hynny. Mae'r amseroedd teithio isod yn ystyried natur y lonydd a'r effaith y gall hynny ei gael ar amser teithio mewn ardal gwledig.

| **Ysgol** | | **Chwilog** | **Bro Plenydd** | **Llanael-haearn** | **Llangybi** | **Pentre-uchaf** | **Eifl** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Chwilog** | **Milltir** | | | | | | |
| | **Munudau** | | | | | | |
| **Bro Plenydd** | **Milltir** | **2.5** | | | | | |
| | **Munudau** | **6** | | | | | |
| **Llanaelhaearn** | **Milltir** | **6.1** | **3.6** | | | | |
| | **Munudau** | **12** | **6** | | | | |
| **Llangybi** | **Milltir** | **2.9** | **2.0** | **3.9** | | | |
| | **Munudau** | **7** | **5** | **9** | | | |
| **Pentreuchaf** | **Milltir** | **5.5** | **3.3** | **4.6** | **5.3** | | |
| | **Munudau** | **11** | **6** | **10** | **11** | | |
| **Eifl** | **Milltir** | **7.9** | **5.3** | **1.9** | **5.7** | **6.3** | |
| | **Munudau** | **16** | **10** | **6** | **12** | **14** | |

## 5. ASESIAD O EFFAITH DEBYGOL AR Y GYMUNED

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd greu meini prawf yn unol â argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

**MODEL 1 – PARHAU GYDA'R 'STATUS QUO'**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Dim newid | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Dim newid | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Dim newid | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Dim newid | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Dim newid | Niwtral |

**MODEL 2 – FFEDERALEIDDIO AC YSGOL NEU YSGOLION ERAILL**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Dim newid o'r sefyllfa bresennol, ond nodir cyfleoedd i gymuned Llanaelhaearn a'r ysgol arall a fyddai'n rhan o'r model ffederal i ddod at eu gilydd. | Niwtral |

## MODEL 3 – CAU YSGOL LLANAELHAEARN A'R PLANT I'W HADDYSGU YN YSGOL BRO PLENYDD

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Gan fod yr ysgol amgen y fwy na 2 filltir o Ysgol Llanaelhaearn a chartrefi'r disgyblion, ni fyddant yn debygol o gerdded i'r ysgol.<br><br>Er hynny, mae lleoliad yr ysgol yn agos i'r briff ffordd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae posib i ollwng plant yn y maes parcio, boed hynny mewn car neu dacsi / bws mini, ac mae safle bws (gwasanaeth bws cyhoeddus) tu allan i ffiniau'r ysgol. Felly, os yw disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio, ni ragwelir anhawster i gyrraedd yr ysgol. | Negyddol |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Mae bws cyhoeddus (rhif 12) yn rhedeg rhwng pentref Llanaelhaearn a'r ysgol amgen. Gall rhai teuluoedd fod yn ddibynnol ar gludiant cyhoeddus i gyrraedd yr ysgol amgen, er hynny, ni ragwelir effaith sylweddol ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan mai 8 disgybl sydd yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Nid oes unrhyw ddefnydd o'r ysgol yn ychwanegol i ddefnydd addysgol. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned, ar sail fod rhan fwyaf o blant y dalgylch eisoes yn mynd i ysgolion eraill. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Gan fod nifer uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill eisoes, ni ellir ddod i gasgliad y byddai cau yr ysgol yn cael effaith ar wasanaethau eraill. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Eto, gan fod y rhan fwyaf o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill, ni ragwelir y byddai colli ysgol yn cael effaith ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Byddai'r ysgol leol yn bellach o gartrefi o fewn dalgylch presennol ysgol Llanaelhaearn, ac o safbwynt amddifadedd –golyga fod un o ddangosyddion 'mynediad i wasanaethau' yn pellhau oddi wrth drigolion y pentref.<br><br>Gan fod canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill eisoes, ni allwn fynegi yn gadarnhaol y byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol na phositif ar y gymuned leol. | Negyddol |

## 6. CASGLIADAU

Dengys cynnwys yr adroddiad hwn na fyddai’r opsiwn i barhau gyda’r sefyllfa bresennol, neu ffederaleiddio gydag ysgol arall, yn cael effaith ar y gymuned, gan fod y ddau opsiwn yn golygu parhau gydag ysgol yn Llanaelhaearn gydag addasiadau i lywodraethu a chydweithio â’r ysgol arall o dan fodel ffederal. Golyga y byddai presenoldeb ysgol yn parhau yng nghymuned Llanaelhaearn gan ymgymryd yr un gweithgareddau a defnyddio'r un cyfleusterau ac y maent yn bresennol.


Pe byddai cyflwyno’r opsiwn o gau Ysgol Llanaelhaearn a’r disgyblion i’w haddysgu yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio.

Er nad oes defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol, gwelir yn yr asesiad hwn fod yr ysgol yn ymwneud a’i chymuned ac yn defnyddio cyfleusterau y gymuned, megis Canolfan y Babell yn gyson. Mae Canolfan y Ffôr ynghlwm ac adeilad y neuadd ac mae Ysgol Bro Plenydd yn defnyddio’r adnodd hwn. Pe byddai gwireddu yr opsiwn hwn yna gellid hybu Ysgol Bro Plenydd i wneud defnydd o gyfleusterau pentref Llanaelhaearn yn ogystal, yn achlysurol.

Ni ragwelir y byddai cau’r ysgol yn annog teuluoedd o oedran ysgol i adael y gymuned, gan fod cyfran helaeth o’r plant sydd yn byw yn nalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill. Yn yr un modd, ni ragwelir y byddai teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i’r gymuned.

Bydd yn hanfodol fel rhan o’r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Llanaelhaearn fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Llanaelhaearn yn ogystal.

Dengys yr asesiad hwn y bydd peth effaith negyddol o gau’r ysgol ar y gymuned. I liniaru’r effaith ar y gymuned nodir cyfleon i sicrhau fod cymuned Llanaelhaearn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir gydweithio cymunedol rhwng Ysgol Bro Plenydd a chymuned Llanaelhaearn, lle’n briodol.




# Adroddiad Asesiad Cydraddoldeb Ysgol Llanaelhaearn

- Rhagfyr 2019

# Cynnwys


1. **CYFLWYNIAD**

2. **OPSIYNAU**

3. **EFFAITH UNRHYW NEWID**

4. **DADANSODDI’R CANLYNIADAU**

5. **CASGLIAD**

# CYFLWYNIAD

## 1.1 Cyd-destun Ysgol Llanaelhaearn

Ar y 4ydd o Fehefin 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Llanaelhaearn, a budd-ddeiliaid perthnasol eraill, er mwyn trafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae gan yr ysgol gapasiti Meithrin i flwyddyn 6 o 53, gyda 8 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol (Medi 2019). Mae'r disgyblion i gyd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn.

Mae'r 8 disgybl sydd bellach yn mynychu'r ysgol yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth gyda 3 yn y cyfnod sylfaen a 5 yng nghyfnod allweddol 2.

Rhwng Mehefin a Medi 2019, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Chorff Llywodraethu a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i adolygu sefyllfa'r ysgol, ble cynigwyd nifer o opsiynau i'w hystyried ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Ar y 5ed o Dachwedd 2019, cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffor, ar y 1af Medi 2020.

## 2. OPSIYNAU

Yn ystod y trafodaethau lleol, bu i nifer o opsiynau gael eu cynnig a'u gwerthuso ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Yn dilyn asesiad manwl o 8 opsiwn, deuir i'r casgliad fod dau opsiwn a oedd yn gynnig manteision o gymharu a sefyllfa bresennol yr ysgol.

Mae'r opsiynau hynny, yn ychwanegol i wneud dim a pharhau gyda'r sefyllfa bresennol, wedi eu manylu isod:

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio. Byddai Pennaeth Strategol ar Ysgol Llanaelhaearn, Garndolbenmaen a Chwilog a fyddai'n treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu gan athro llawn amser a chymhorthydd.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill*

Byddai Ysgol Llanaelhaearn yn ffurfio Ffederasiwn ffurfiol, cyfreithiol gydag un neu fwy o' Ysgolion cyfagos. Golyga hyn fod yr ysgolion yn parhau ar wahân ond fod y Cyrff Llywodraethu yn cael eu diddymu, a bod un Corff Llywodraethol yn cael ei ethol ar gyfer y Ffederasiwn. Yn ddaearyddol, yr ysgolion a fyddai'n rhesymol i'w hystyried fyddai un neu fwy o'r ysgolion canlynol; Yr Eifl, Llangybi, Bro Plenydd, Chwilog a Pentreuchaf. Byddai cyllidebau yr ysgolion yn parhau ar wahân. Byddai ffederaleiddio yn gallu arwain at gyfleon i gydweithio yn agosach ac ysgol neu ysgolion eraill gan gryfhau arweinyddiaeth a chynllunio ar draws y ffederasiwn.

Drwy gyflwyno model ffederal gyda ysgol arall i Ysgol Llanaelhaearn, ni ragwelir y byddai'r newid yn cael effaith ar nodweddion cydraddoldeb, yn bennaf gan y byddai'r ysgol yn parhau yn Llanaelhaearn, gan weithredu yr un polisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio.

- *Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golyga hyn fod Ysgol Llanaelhaearn yn cau, a'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd (yr ysgol amgen).

Daethpwyd i gasgliad yn dilyn asesiad manylach o'r opsiynau hyn, mae'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Bro Plenydd oedd yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion a dosbarthiadau bychain.

## 3. EFFAITH UNRHYW NEWID

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn?

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Ni fyddai gweithredu y cynnig yn effeithio ar bobl ar sail hil. Bydd gweithredu unrhyw gynnig yn golygu fod pawb o unrhyw hil yn cael eu trin yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi eu bod yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Dim | Addysgir plant Ysgol Llanaelhaearn drwy gyfrwng y Gymraeg, ac nid yw'r opsiwn arfaethedig yn awgrymu newid hynny. Cynhaliwyd asesiad ardrawiad ieithyddol ar y cynnig yn ogystal. |
| **Anabledd** | Dim | Ni ragwelir fod newid ar gyfer pobl anabl.<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd yn cael ei gymeradwyo, bydd angen monitro y nifer o ddisgyblion anabl sydd yn mynychu'r ysgolion. Yn ddibynnol ar yr amhariad bydd yn rhaid i'r ysgolion addasu eu cynlluniau ar gyfer rhoi mynediad i ddisgyblion gydag anableddau penodol. Yn sgil hyn bydd yn rhaid i'r awdurdod hefyd sicrhau bod adrannau perthnasol yn ymwybodol o newidiadau a sicrhau'r mewnbwn angenrheidiol. Byddai asesiad o hygyrchedd y safle arfaethedig yn cael ei gynnal yn unol â sefyllfaoedd penodol. |
| **Rhyw** | Dim | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail rhyw. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Oedran** | Unrhyw effaith yn gymharol fychan (positif neu negatif) | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail oedran. Bydd gweithredu'r cynnig yn golygu fod pobl o unrhyw oedran yn cael eu trin yn deg ac yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |

| | | |
|---|---|---|
| | | Er y gallai golli ysgol leol gael effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol, bydd angen lliniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol amgen a chymuned leol Llanaelhaearn. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Bydd gweithredu'r cynnig yn golygu fod pawb o unrhyw gyfeiriadedd rhywiol yn cael eu trin yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Crefydd neu Gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail crefydd neu gred. Bydd gweithredu unrhyw un o'r opsiynau yn golygu fod pawb o unrhyw grefydd neu gred yn cael eu trin yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."*<br><br>Ysgol gymunedol yw Ysgol Llanaelhaearn a'r holl ysgolion cyfagos (Yr Eifl, Llangybi, Pentreuchaf, Bro Plenydd, Chwilog), ac nid oes bwriad i newid hyn. |
| **Ailbennu Rhywedd** | Dim | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail ailbennu rhywedd. Bydd gweithredu y cynnig yn sicrhau fod pawb yn cael eu trin yn deg. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar unrhyw un beichiog, boed yn staff neu yn riant, gan fod y ddwy ysgol yn gweithredu yr un polisïau. |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Dim | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar unrhyw un priod neu mewn partneriaeth sifil, gan fod y ddwy ysgol yn gweithredu yr un polisïau. |

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth.

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Gweithredu polisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio yr ysgol amgen er mwyn cael gwared a chamwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu.<br>Mae polisïau safonol yr Adran Addysg yn cael eu gweithredu gan y ddwy ysgol. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Nac ydi | Anelir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hybu'r ysgol amgen i barhau i ddilyn polisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Anelir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hybu'r ysgol amgen i barhau i ddilyn polisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb.<br><br>Gan fod rhai o blant sydd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn yn mynychu Ysgol Bro Plenydd eisoes, mae cysylltiad rhwng yr ysgol a chymuned Llanaelhaearn yn bodoli yn barod. Er hynny, hyrwyddir cyfleon i'r ysgol adeiladu ar gysylltiadau gyda chymuned Llanaelhaearn. |

## 4. DADANSODDI'R CANLYNIADAU

4.1 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol. Mae gan yr ysgol amgen bolisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio, fel sydd gan Ysgol Llanaelhaearn yn bresennol. |

4.2 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol. Mae gan yr ysgol amgen bolisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio, fel sydd gan Ysgol Llanaelhaearn yn bresennol. |

4.3 Beth ddylid ei wneud?

**Dewiswch un o'r canlynol:**

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau â'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

4.4 Os yn parhau gyda'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?


| |
|---|
| Er y gallai golli ysgol leol gael effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol, bydd angen lliniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol amgen a chymuned leol Llanaelhaearn. |

4.5 Monitro - pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

| |
|---|
| Yr ysgol (a'u Corff Llywodraethu) sydd yn gyfrifol am weithredu ei bolisi cydraddoldeb a bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cefnogi a monitor arferol, yn sicrhau cydymffurfiaeth. |

## 5. CASGLIAD

Deuir i gasgliad na fyddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Bro Plenydd yn effeithio ar gydraddoldeb, boed yn nodweddion neu ddyletswydd gyffredinol. Gweithredir polisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio cadarn gan yr ysgol amgen a fyddai'n ymestyn i gynnwys disgyblion a rhieni Llanaelhaearn. Pe byddai rhai yn cael eu hamlygu yn dilyn yr ymgynghoriad (yn ddarostyngedig ar benderfyniad y Cabinet), yna bydd y Cyngor yn ystyried y camau gweithredu angenrheidiol.




# Adroddiad Asesu yr Effaith Debygol ar Drefniadau Teithio- Ysgol Llanaelhaearn

- Rhagfyr 2019

## Cynnwys


1. CYFLWYNIAD

1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

1.2 Cyd-destun Ysgol Llanaelhaearn

2. OPSIYNAU

3. ASESIAD O'R EFFAITH AR DREFNIADAU TEITHIO

3.1 Lleoliad yr ysgol amgen

3.2 Opsiynau cludiant di-dâl

3.3. Effaith ariannol

4. CASGLIADAU

# 1. CYFLWYNIAD

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, sydd yn cynnwys 'Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gweledig', mae angen gwneud asesiad ar yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio ar unrhyw opsiwn rhesymol a ellir datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

At ddiben y Cod, mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei dynodi fel 'Ysgol Wledig'.

*"Mae'r ail fersiwn hon o'r Cod yn gwneud trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, wrth ymgynghori ar benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu cynnig i gau ysgol wledig ac wrth wneud y penderfyniad."*

*"Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod yn rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio."*

Ffynhonnell: Cod Trefniadaeth Ysgolion 011 /2018

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae gan yr Ysgol gapasiti Meithrin i Flwyddyn 6 o 53, gyda 8 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol (Cyfrifiad Medi 2019). Mae'r disgyblion i gyd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn.

Mae niferoedd disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol wedi lleihau yn sylweddol ers 2013, pan fu dros 40 o ddisgyblion yn yr ysgol.

Mae'r 8 disgybl sydd bellach yn mynychu yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth gyda thri disgybl mewn un dosbarth a pum disgybl yn y llall.

Ar y 24ain Mehefin 2019, cynhaliwyd cyfarfod i adolygu sefyllfa'r ysgol, ble cynigwyd nifer o opsiynau i'w hystyried ar gyfer dyfodol yr ysgol. Bu cyfarfodydd pellach ym mis Medi i werthuso'r opsiynau gan adnabod yr opsiynau a fyddai'n rhesymol i geisio datrys yr her y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion.

Ar y 5ed o Dachwedd 2019, cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffor, ar y 1af Medi 2020.

## 1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

Mae strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (ddim yn cynnwys disgyblion meithrin). Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg

gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni: (https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Talu-eich-ysgol/Gwybodaeth-i-Rieni-2019-20-2.pdf)

## 1.2 Cyd-destun Ysgol Llanaelhaearn

Ar ddiwrnod cyfrifiad Medi 2018, roedd 38 o blant oed Ysgol Gynradd yn byw yn nalgylch Ysgol Llanaelhaearn. Roedd 27 o'r rheini yn mynychu ysgolion all-dalgylch ac 11 yn mynychu Ysgol Llanaelhaearn. Nid oes plant sydd yn byw tu allan i ddalgylch Llanaelhaearn yn mynychu'r ysgol, fel gwelir yn y tabl isod:

| | | Dalgylch Cartref / Home Catchment Area (Medi / September 2018) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Llanaelhaearn | Bro Plenydd | Llangybi | Yr Eifl | Chwilog | Pentreuchaf | Arall | Cyfanswm Ysgol School Total |
| Mynychu Ysgol / School Attending (Medi / September 2018) | Llanaelhaearn | 11 | - | - | - | - | - | - | **11** |
| | Bro Plenydd | 6 | 38 | 12 | - | 6 | 2 | 13 | **77** |
| | Llangybi | 3 | - | 29 | - | 2 | 1 | 3 | **38** |
| | Yr Eifl | - | - | - | 58 | - | - | 1 | **59** |
| | Chwilog | - | - | 1 | - | 47 | - | 4 | **52** |
| | Pentreuchaf | 5 | 5 | - | 1 | 3 | 39 | 44 | **97** |
| | Arall | 14 | 6 | 5 | 5 | 12 | 15 | | |
| Cyfanswm Dalgylch Catchment Area Total | | **39** | **49** | **47** | **64** | **70** | **57** | | |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2018

## 2. OPSIYNAU

Mae'r asesiad hwn wedi ei wneud ar ddau fodel a fyddai'n cynnig manteision o gymharu â sefyllfa bresennol yr ysgol, sef ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill, neu gau'r ysgol a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.

Mae'r modelau hynny, yn ychwanegol i wneud dim a pharhau gyda'r sefyllfa bresennol, wedi eu manylu isod.

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio. Byddai Pennaeth Strategol ar Ysgol Llanaelhaearn, Garndolbenmaen a Chwilog a fyddai'n treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu gan athro llawn amser a chymhorthydd.

**Ni fyddai'r model hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol, gan y byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Llanaelhaearn.**

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill*

Byddai Ysgol Llanaelhaearn yn ffurfio model ffederal ffurfiol, gyfreithiol gydag ysgol neu ysgolion eraill cyfagos. Yn ddaearyddol, yr ysgolion a fyddai'n rhesymol i'w hystyried byddai un neu fwy o ysgolion yr Eifl, Llangybi, Bro Plenydd, Chwilog, neu Pentreuchaf.

Golyga hyn fod yr ysgolion yn parhau ar wahân ond fod y Cyrff Llywodraethu yn cael eu diddymu, a bod un Corff Llywodraethol yn cael ei ethol ar gyfer y Ffederasiwn. Byddai cyllidebau'r ysgolion yn parhau fel y maen nhw.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleon y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

**Ni fyddai'r model hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol, gan y byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Llanaelhaearn.**

- *Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golyga hyn fod Ysgol Llanaelhaearn yn cau, a'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i ysgol amgen.

Byddai'r model hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio, gan y byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgol amgen. Yr ysgol amgen sydd yn rhan o'r cynnig yw Ysgol Bro Plenydd, y Ffôr.

**Gan fod Ysgol Bro Plenydd 3.6 milltir o Ysgol Llanaelhaearn, byddai angen i Gyngor Gwynedd ddarparu cludiant l i'r disgyblion a fyddai'n mynychu Ysgol Bro Plenydd ac yn byw fwy na 2 filltir o'r ysgol, yn unol â Pholisi Cludiant yr Awdurdod.**

## 3. ASESIAD O’R EFFAITH AR DREFNIADAU TEITHIO

### 3.1. Lleoliad yr ysgol amgen

Mae Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, 3.6 milltir o Ysgol Llanaelhaearn. Mae’r ysgol wedi ei lleoli yn agos i’r A499 gyda mynediad i safle’r ysgol oddi ar y ffordd yma. Golyga hyn ei bod yn hwylus i deithio rhwng pentref Llanaelhaearn a Y Ffôr mewn car neu drwy ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

### 3.2. Opsiynau cludiant di-dâl

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, byddai’r Awdurdod yn trefnu tacsis neu fws mini i gludo’r disgyblion o ddalgylch Llanaelhaearn i’r ysgol amgen, ac fel nodir yn y polisi hwn, disgwylir i ddysgwyr sy’n derbyn addysg gynradd neu uwchradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf.

Y llwybr byrraf sydd ar gael yw’r un nad yw’r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu’r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai’r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Nodir fod nifer o fysus ysgol yn rhedeg yn yr ardal. Nid oes yr un o’r bysus ysgolion cynradd yn rhedeg rhwng Llanaelhaearn ac Y Ffôr, i fedru manteisio ar un o’r rhan.

Mae bws Ysgol Glan y Môr yn mynd drwy’r ddau bentref, er hynny, nid yw’n arferiad i blant cynradd ddefnyddio bysiau ysgolion Uwchradd.

**TREFOR - YSGOL GLAN Y MÔR** **311**
**Cerbydau Berwyn - 01286 660 315**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Trefor | 0810 | | **Ysgol Glan Y Mor** | 1525 |
| Llanaelhaearn | 0815 | | Y Ffor | 1535 |
| Y Ffor | 0820 | | Llanaelhaearn | 1540 |
| **Ysgol Glan Y Mor** | 0830 | | Trefor | 1545 |

***Amserlen bws Ysgol Glan y Môr***

Yn ogystal, nodir fod bws cyhoeddus yn gwasanaethu rhwng y ddau bentref (amserlen isod).

**Pwllheli - Trefor - Caernarfon** — **BERWYN / CLYNNOG AND TREFOR** **12**
**Llun i Sadwrn Dim ar Wyliau Cyhoeddus** — o/from 01/04/18 — **Monday to Saturday Except Public Holidays**

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PWLLHELI**, Gorsaf Bws/Bus Station (C) | .... | 0740 | 0840 | 0940 | 1040 | 1140 | 1240 | 1340 | 1440 | 1550 | 1640 | 1740 | 1825 | 1945 | 2115 | 2240 |
| Pwllheli, Ysbyty Bryn Beryl | .... | 0745 | 0845 | 0945 | 1045 | 1145 | 1245 | 1345 | 1445 | 1555 | 1645 | 1745 | 1830 | 1950 | 2120 | 2245 |
| Y Ffôr | .... | 0748 | 0848 | 0948 | 1048 | 1148 | 1248 | 1348 | 1448 | 1558 | 1648 | 1748 | 1833 | 1953 | 2123 | 2248 |
| Llanaelhaearn | .... | 0754 | 0854 | 0954 | 1054 | 1154 | 1254 | 1354 | 1454 | 1604 | 1654 | 1754 | 1839 | 1959 | 2129 | 2254 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanaelhaearn | 0711 | 0801 | 0906 | 1011 | 1111 | 1211 | 1311 | 1411 | 1511 | 1611 | 1711 | 1811 | 1931 | 2104 | 2229 | .... |
| Y Ffôr | 0717 | 0807 | 0912 | 1017 | 1117 | 1217 | 1317 | 1417 | 1517 | 1617 | 1717 | 1817 | 1937 | 2107 | 2232 | .... |
| Pwllheli, Ysbyty Bryn Beryl | 0720 | 0810 | 0915 | 1020 | 1120 | 1220 | 1320 | 1420 | 1520 | 1620 | 1720 | 1820 | 1940 | 2110 | 2235 | .... |
| **PWLLHELI**, Gorsaf Bws/Bus Station (C) | 0725 | 0815 | 0920 | 1025 | 1125 | 1225 | 1325 | 1425 | 1525 | 1625 | 1725 | 1825 | 1945 | 2115 | 2240 | .... |

***Amserlen cludiant cyhoeddus***

### 3.3. Effaith ariannol

Mae crynodeb isod o'r effaith ariannol ar drefniadau teithio:

| Ysgol amgen (opsiwn) | Pellter oddi wrth Ysgol Llanaelhaearn (milltiroedd) | Costau cludiant o ganol pentref Llanaelhaearn i'r ysgol amgen |
|---|---|---|
| Bws mini / tacsi ar gyfer 8 disgybl. | 3.6 | £11,400 |

| | Yr effaith debygol ar drefniadau teithio i ddysgwyr | Yr effaith debygol ariannol blynyddol ar drefniadau teithio i'r Awdurdod |
|---|---|---|
| Gwneud dim | Dim newid | £0 |
| Ffederaleiddio yn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill | Dim newid | £0 |
| Cau ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i'w haddysgu yn Ysgol Bro Plenydd, y Ffôr – cludiant ar gyfer 8 disgybl. | Ymgynnull mewn man fydd wedi ei gytuno er mwyn dal y bws. | £11,400 |

Nodir fod 7 o ddisgyblion yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn eisoes yn mynychu Ysgol Bro Plenydd (data 2018).

Pe byddai dalgylch Ysgol Bro Plenydd yn newid i gynnwys dalgylch Ysgol Llanaelhaearn yn y dyfodol, yna amcangyfrifir y byddai:

- Costau cludiant ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn yn ogystal â'r disgyblion hynny sydd yn mynychu Ysgol Bro Plenydd eisoes, oddeutu £19,000 y flwyddyn.
- Costau cludiant ar gyfer holl ddisgyblion dalgylch Ysgol Llanaelhaearn, petaent i gyd yn dewis mynychu Ysgol Bro Plenydd yn y dyfodol, oddeutu £25,000 y flwyddyn.

## 4. CASGLIAD


Ni fyddai unrhyw effaith ar y trefniadau teithio a chludiant presennol wrth gyflwyno model o ffederaleiddio yn ffurfiol, gan y byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Llanaelhaearn.

Pe byddai'r opsiwn o gau Ysgol Llanaelhaearn a chynnig addysg i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, y Ffôr yn cael ei wireddu, yna byddai effaith ar drefniadau teithio i'r plant ac i'r Awdurdod.

Yn unol â'r data diweddaraf, sef Medi 2018, mae 38 o blant yn byw yn y dalgylch gyda 27 yn dewis mynychu ysgolion eraill, a 7 o'r rheini yn mynychu Ysgol Bro Plenydd eisoes.

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y bydd bws neu dacsi yn cael ei drefnu ar gyfer y dysgwyr, a fyddai'n gollwng y plant ym maes parcio Ysgol Bro Plenydd.

Byddai'r opsiwn yn golygu costau ychwanegol i'r Awdurdod. Amcangyfrifir i'r costau hyn fod oddeutu £11,400 i gludo'r 8 disgybl presennol i Ysgol Bro Plenydd, a hyd at oddeutu £25,000 petai plant dalgylch Ysgol Llanaelhaearn i gyd yn penderfynu mynychu Ysgol Bro Plenydd (yn ddarostyngedig ar addasu'r dalgylchoedd ar gyfer y dyfodol).




# Adroddiad Asesu Ansawdd a Safonau Addysg - Ysgol Llanaelhaearn

\- Rhagfyr 2019

## Cynnwys

1. CYFLWYNIAD

2. CRYNODEB

3. ASESIAD O EFFAITH AR SAFONAU AC ANSAWDD ADDYSG

4. CASGLIADAU

## 1. CYFLWYNIAD

Ar y 4ydd o Fehefin 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg '*gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i drafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol*' o ganlyniad i bryderon yr Adran Addysg ynghylch cwymp sylweddol mewn niferoedd yn mynychu'r ysgol.

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, sydd yn cynnwys 'Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gweledig', mae angen gwneud asesiad ar yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg ar unrhyw opsiwn rhesymol a ellir datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

At ddiben y Cod, mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei dynodi fel 'Ysgol Wledig'.

*"Mae'r ail fersiwn hon o'r Cod yn gwneud trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, wrth ymgynghori ar benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu cynnig i gau ysgol wledig ac wrth wneud y penderfyniad."*

*"Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod yn rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio."*

Ffynhonnell: Cod Trefniadaeth Ysgolion 011 /2018

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae gan yr Ysgol gapasiti Meithrin i Flwyddyn 6 o 53, gyda 8 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol (Cyfrifiad Medi 2019). Mae'r disgyblion i gyd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn.

Mae niferoedd disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol wedi lleihau yn sylweddol ers 2013, pan fu dros 40 o ddisgyblion yn yr ysgol.

Mae'r 8 disgybl sydd bellach yn mynychu yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth gyda thri disgybl mewn un dosbarth a pum disgybl yn y llall.

Ar y 24ain o Fehefin 2019, cynhaliwyd cyfarfod i adolygu sefyllfa'r ysgol, ble cynigwyd nifer o opsiynau i'w hystyried ar gyfer dyfodol yr ysgol. Bu cyfarfodydd pellach ym mis Medi i werthuso'r opsiynau gan adnabod yr opsiynau a fyddai'n rhesymol i geisio datrys yr her y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion.

Ar y 5ed o Dachwedd 2019, cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffor, ar y 1af Medi 2020.

## 2. CRYNODEB

Bu i Ysgol Llanaelhaearn gael ei harolygu gan Estyn diwethaf yn 2015 ble daethpwyd i'r casgliad mai digonol oedd perfformiad presennol yr ysgol ynghyd a'r rhagolygon gwella. Cydnabyddir fod yr ysgol wedi bod ar daith gwella ers cyfnod yr arolygiad a bod sawl Pennaeth wedi arwain yr ysgol ers hynny.

Yn 2019 gosodwyd yr ysgol yn y categori melyn o ran cefnogaeth a gallu'r ysgol i wella gan Lywodraeth Cymru.

Mae crynodeb isod o arolygon diweddaraf ysgolion cyfagos, neu ysgolion sydd yn destun unrhyw un o'r opsiynau rhesymol ar gyfer dyfodol Ysgol Llanaelhaearn.

### 2.1 Ysgol Llanaelhaearn

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn, sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon yng Ngwynedd. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys y pentref ac ardal gyfagos, sydd wedi ei leoli rhwng dalgylchoedd Ysgolion yr Eifl (Trefor), Ysgol Llangybi, Ysgol Bro Plenydd (Y Ffôr) ac Ysgol Pentreuchaf. Bu i Ysgol Llanaelhaearn gael ei harolygu diwethaf yn 2015, pan oedd 28 o ddisgyblion ar y gofrestr, oedd yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth cymysg eu hoedran.

Cydnabyddir yn ogystal, oherwydd cymhareb isel disgybl i blentyn sydd ar hyn o bryd yn Ysgol Llanaelhaearn, mae'r plant yn gwneud cynnydd da.

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Pa mor dda yw'r deilliannau? | Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Lefel y Dilyniant (os yn briodol) | | Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llanaelhaearn** | Ebrill 2015 | Digonol | Digonol | Anfoddhaol | Hydref 2016 | Cynnydd Da | Melyn |

### 2.2 Ysgolion eraill yr ardal

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Pa mor dda yw'r deilliannau? | Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Lefel y Dilyniant (os yn briodol) | | Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Eifl** | Rhagfyr 2014 | Digonol | Da | Digonol | Mehefin 2016 | Cynnydd Da | Melyn |
| **Bro Plenydd** | Chwefror 2015 | Da | Da | Da | - | - | Gwyrdd |
| **Chwilog** | Ionawr 2013 | Digonol | Digonol | Anfoddhaol | Ebrill 2014 | Gwelliant Sylweddol | Melyn |

Mae'r tabl isod yn crynhoi adroddiad arolwg Estyn yr ysgol sydd wedi cael eu harolygu ers Medi 2017, pan fu i Estyn gyflwyno'r pum maes adolygu:

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Safonau | Lles ac agweddau at ddysgu | Addysgu a phrofiadau dysgu | Gofal, cymorth ac arweiniad | Arweinyddiaeth a rheolaeth | Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llangybi** | Rhagfyr 2018 | Da | Da | Da | Da | Da | Melyn |
| **Pentreuchaf** | Ebrill 2019 | Da | Da | Da | Da | Da | Gwyrdd |

## 3. ASESIAD O EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG

Mae’r asesiad hwn wedi ei wneud ar ddau fodel a fyddai’n cynnig manteision o gymharu â sefyllfa bresennol yr ysgol, sef ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill, neu gau'r ysgol a’r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.

Mae’r modelau hynny, yn ychwanegol i wneud dim a pharhau gyda’r sefyllfa bresennol, wedi eu manylu isod.

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Byddai cadw’r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn yr un modd, gyda’r un strwythur staffio. Byddai Pennaeth Strategol ar Ysgol Llanaelhaearn, Garndolbenmaen a Chwilog a byddai’n treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

Byddai’r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu gan athrawes lawn amser ac uwch-gymhorthydd.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill*

Byddai Ysgol Llanaelhaearn yn ffurfio model ffederal ffurfiol, gyfreithiol gydag ysgol neu ysgolion eraill cyfagos. Yn ddaearyddol, yr ysgolion a fyddai’n rhesymol i’w hystyried byddai un neu fwy o’r ysgolion canlynol; Yr Eifl, Llangybi, Bro Plenydd, Chwilog, neu Pentreuchaf.

Golyga hyn fod yr ysgolion yn parhau ar wahân ond fod y Cyrff Llywodraethu yn cael eu diddymu, a bod un Corff Llywodraethol yn cael ei ethol ar gyfer y Ffederasiwn. Byddai cyllidebau'r ysgolion yn parhau fel y maen nhw.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleon y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

- *Cau Ysgol Llanaelhaearn a’r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golyga hyn fod Ysgol Llanaelhaearn yn cau, a’r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd (yr ysgol amgen).

**GWNEUD DIM - ASESIAD O'R EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Dim newid | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Dim newid | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | Dim newid | Niwtral |
| Arweiniad a chymorth gofal | Dim newid | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dim newid | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Dim newid | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Dim newid | Niwtral |

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Llanaelhaearn Ebrill 2015.*

**FFEDERALEIDDIO - ASESIAD O'R EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori a Llanaelhaearn, fan lleiaf. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori a Llanaelhaearn, fan lleiaf. | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | Mae'r trefniant presennol o gyd-weithio gydag Ysgol Chwilog yn rhoi profiadau a chyfleon pontio i'r disgyblion. Byddai model ffederal yn debygol o gynnwys yr un cyfleon, gyda'r posibilrwydd o ehangu ar hyn. | Positif |
| Arweiniad a chymorth gofal | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori a Llanaelhaearn, fan lleiaf. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Arbed amser y Pennaeth drwy gynllunio ar draws y ffederasiwn yn hytrach nac ar gyfer ysgolion unigol. | Positif |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Ni fyddai darpariaethau i grwpiau agored i niwed yn newid o dan fodel ffederal. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Dim newid gan y bydd Ysgol Llanaelhaearn yn parhau. | Niwtral |

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Llanaelhaearn Ebrill 2015; Ysgol Bro Plenydd Chwefror 2015; Ysgol Chwilog, Ebrill 2014; Ysgol Llangybi 2018, Ysgol Yr Eifl 2014 ac Ysgol Pentreuchaf 2012.*

**CAU YSGOL LLANAELHAEARN A'R PLANT I'W HADDYSGU MEWN YSGOL AMGEN - ASESIAD O'R EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | 'Digonol' oedd canlyniad arolwg estyn ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Llanaelhaearn, tra bo Ysgol Bro Plenydd yn 'Dda'. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon diwethaf (2015) felly byddai addysgu'r plant yn Ysgol Bro Plenydd yn effaith bositif. | Positif |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | 'Digonol' oedd canlyniad y dangosydd 'Lles' ar gyfer Ysgol Llanaelhaearn, ac Ysgol Bro Plenydd yn ystod eu harolwg diweddaraf (2015), felly yn seiliedig ar yr adroddiadau hyn ni ragwelir unrhyw effaith. | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | 'Digonol' oedd canlyniad y dangosyddion hyn ar gyfer Ysgol Llanaelhaearn yn 2015, a 'Da' oedd canlyniad y dangosyddion yn ôl Estyn ar gyfer Ysgol Bro Plenydd yn 2015.<br>Rhagwelir felly y gallai'r model hwn gael effaith bositif ar brofiadau addysgu a dysgu.<br>Byddai addysg yn Ysgol Bro Plenydd yn golygu addysgu mewn grwpiau mwy a gyda chyfoedion i ehangu ar eu profiadau. | Positif |
| Arweiniad a chymorth gofal | 'Digonol' oedd canlyniad y dangosyddion hyn ar gyfer Ysgol Llanaelhaearn yn 2015, a 'Da' oedd canlyniad y dangosyddion yn ôl Estyn ar gyfer Ysgol Bro Plenydd yn 2015.<br>Rhagwelir felly y gallai'r model hwn gael effaith bositif ar brofiadau addysgu a dysgu. | Positif |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Yn ystod eu hadolygiad diwethaf gan Estyn, yn Chwefror 2015, fe wnaeth Ysgol Bro Plenydd gael eu rhoi yn y categori 'Da' ar gyfer holl agweddau 'arweinyddiaeth a rheolaeth'.<br>Cafodd Ysgol Llanaelhaearn eu rhoi yn y categori 'digonol' gyda'r maes 'Arweinyddiaeth' yn benodol yn 'anfoddhaol'. Er hynny, bu i'r ysgol gyflawni'r rhagolygon gwella. | Positif |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol a pholisi yr Awdurdod, fel ym mhob ysgol yng Ngwynedd. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Mae'r ysgol amgen wedi ei roi mewn categori 'A' o ran cyflwr, o gymharu ag Ysgol Llanaelhaearn sydd wedi'i roi yng nghategori 'B'. | Positif |


*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Llanaelhaearn Ebrill 2015, ac Ysgol Bro Plenydd, Chwefror 2015.*

## 4. CASGLIADAU

Dengys yr asesiad hwn o’r effaith ar ansawdd a safonau addysg, y byddai cyflwyno opsiynau o ffederaleiddio, neu gau ysgol Llanaelhaearn a throsglwyddo’r plant i Ysgol Bro Plenydd yn debygol o fod yn bositif.

Er hynny, cydnabyddir fod niferoedd isel Ysgol Llanaelhaearn bellach yn golygu fod cymhareb isel disgybl i blentyn yno ar hyn o bryd, ac o ganlyniad y mae’r plant yn gwneud cynnydd da.

Mae’r wybodaeth yn yr asesiad hwn yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn yn yr ysgolion dan sylw yn nodi fod pob un o’r ysgolion wedi eu gosod mewn categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Llanaelhaearn, a phob un o’r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt lefel cefnogaeth Llywodraeth Cymru.




# Adroddiad Asesiad Llesiant Ysgol Llanaelhaearn

- Rhagfyr 2019

## Cynnwys


1. **CYFLWYNIAD**

2. **SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?**

3. **A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?**

4. **EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY**

5. **CASGLIAD**

# 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.
Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

| **Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel byd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel | | | ■ | | ■ | | |
| Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau | | ■ | ■ | | ■ | | ■ |
| Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd | ■ | | | ■ | ■ | | |
| Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud | ■ | ■ | | ■ | | ■ | |
| Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg | | | | | ■ | ■ | |
| Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir. | ■ | ■ | | | | | ■ |

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r dyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

## 1.1 Cyd-destun Ysgol Llanaelhaearn

Ar y 4ydd o Fehefin 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Llanaelhaearn, a budd-ddeiliaid perthnasol eraill, er mwyn trafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae gan yr ysgol gapasiti Meithrin i Flwyddyn 6 o 53, gyda 8 disgybl rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol (Medi 2019). Mae'r disgyblion i gyd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn.

Mae'r 8 disgybl sydd bellach yn mynychu'r ysgol yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth gyda 3 yn y cyfnod sylfaen a 5 yng nghyfnod allweddol 2.

Rhwng Mehefin a Medi 2019, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd i adolygu sefyllfa'r ysgol, ble bu i nifer o opsiynau gael eu cynnig a'u gwerthuso ar gyfer y dyfodol.

Wedi ystyried a gwerthuso'r 8 opsiwn, bu i'r Adran Addysg ystyried dau opsiwn yn fanylach, a fyddai'n cynnig manteision o gymharu â sefyllfa bresennol yr ysgol, sef ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill, neu gau'r ysgol a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.

Mae'r modelau hynny, yn ychwanegol i wneud dim a pharhau gyda'r sefyllfa bresennol, wedi eu manylu isod.

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio. Byddai Pennaeth Strategol ar Ysgol Llanaelhaearn, Garndolbenmaen a Chwilog a fyddai'n treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu gan athro llawn amser ac uwch-gymhorthydd.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill*

Byddai Ysgol Llanaelhaearn yn ffurfio model ffederal ffurfiol, gyfreithiol gydag ysgol neu ysgolion eraill cyfagos. Yn ddaearyddol, yr ysgolion a fyddai'n rhesymol i'w hystyried byddai un neu fwy o'r ysgolion canlynol; Yr Eifl, Llangybi, Bro Plenydd, Chwilog, neu Pentreuchaf.

Golyga hyn fod yr ysgolion yn parhau ar wahân ond fod y Cyrff Llywodraethu yn cael eu diddymu, a bod un Corff Llywodraethol yn cael ei ethol ar gyfer y Ffederasiwn. Byddai cyllidebau'r ysgolion yn parhau fel y maen nhw.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleon y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

- *Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golyga hyn fod Ysgol Llanaelhaearn yn cau, a'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd (yr ysgol amgen).

Yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r opsiynau hynny, bydd argymhelliad yn cael ei gynnig i Gabinet Cyngor Gwynedd ar y 5ed o Dachwedd i gau Ysgol Llanaelhaearn a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Bro Plenydd, y Ffôr.

## 2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Ystyriwyd amcanion llesiant Cyngor Gwynedd wrth werthuso'r opsiynau.

| Gwneud dim – parhau gyda'r sefyllfa bresennol. | |
|---|---|
| **Amcanion** | Manylion: |
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Dim effaith |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

| Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill | |
|---|---|
| **Amcanion** | Manylion: |
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Dim effaith. Proses o ffurfioli'r drefn bresennol o gydweithio byddai ffederaleiddio, ac er bydd man newidiadau megis un Corff Llywodraethu ar ffederasiwn, a lleihau'r baich gweinyddol ar y Pennaeth, rhagdybir y byddai'r ysgol yn parhau gyda'r trefniant o gydweithio gydag Ysgolion Chwilog a Garndolbenmaen, neu ysgol arall pe byddant yn ffederaleiddio a nhw. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

| Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen | |
|---|---|
| **Amcanion** | Manylion: |
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Gall cyflwyno'r opsiwn yma arwain at staff i golli eu swyddi.<br>Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw newid i gyflogaeth staff sy'n deillio o unrhyw gynnig.<br>Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion. |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Bydd sicrhau fod y disgyblion yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnig, gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd a safon, fan lleiaf, yn yr ysgol amgen. |

| | |
|---|---|
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy’n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Cynhaliwyd asesiad ardrawiad ieithyddol. Mae disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn byw mewn cymdeithas Gymraeg ac yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel Ysgol Bro Plenydd. Nodir yr asesiad ardrawiad ieithyddol fod sefyllfa'r ysgol amgen yn gryf iawn, gyda 83% o ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg. O’i gymharu, mae 54% o ddisgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn dod o gartrefi Cymraeg. |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

## 3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

| Nod | Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? | Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma: |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith. | Golyga gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ac addysgu'r plant yn Ysgol Bro Plenydd fod y disgyblion yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu a phlant eraill ac yn derbyn addysg o ansawdd gan ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus.<br><br>Gall cyflwyno'r opsiwn yma arwain at staff yn colli eu swyddi. | Ymgynghorir yn benodol a staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ac Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gyd-fynd a'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion. |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma. | Dim effaith |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd. | Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma. | Dim effaith |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | Addysg a phrofiadau disgyblion y dalgylch sydd yn flaenllaw i'r cynnig. Ein bwriad yw sicrhau fod disgyblion yn cyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir. | Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb a deuir i gasgliad na fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar gydraddoldeb, a bod cyfle cyfartal i holl ddisgyblion a theuluoedd gwaeth beth fo'u cefndir nau amgylchiad cymdeithasol-economaidd. Mae'r ysgol amgen yn gweithredu polisi cydraddoldeb a gwrth-fwlio cadarn. |
| **Cymru o gymunedau gydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Mae cymuned Llanaelhaearn yn gryf a gweithgar a chydnabyddir y byddai cau'r ysgol yn cael peth effaith negyddol ar y gymuned. | Cynhaliwyd asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned ble nodir er bod peth effaith negyddol ar y gymuned, ond fod 7 o ddisgyblion sydd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn yn mynychu Ysgol Bro Plenydd yn barod, ac felly mae cyswllt eisoes rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach. Nodir yr asesiad yn ogystal y byddai trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Bro Plenydd yn cynnwys cymuned Llanaelhaearn. |
| **Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Bydd gwireddu'r cynnig yn golygu y bydd disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn parhau i gael eu haddysgu mewn Ysgol cyfrwng Cymraeg. | Nodir yr asesiad ardrawiad ieithyddol na fyddai newid i'r nod hwn drwy wireddu'r cynnig o ganlyniad i Gymreictod ardal Llanaelhaearn a'r ardaloedd eraill cyfagos. |

| | | |
|---|---|---|
| Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | | |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma. | Dim effaith. |

## 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

| Egwyddorion Datblygu cynaliadwy | A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor? |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. | Mae'r patrwm niferoedd yn lleihau wedi bod yn digwydd ers 2012, gyda rhagamcanion yn dangos y bydd niferoedd yn lleihau ymhellach, ac felly dengys y bydd y sefyllfa o' heriau presennol sydd yn wynebu'r ysgol yn rhai hir dymor a bod angen adolygu'r sefyllfa cyn gynted â phosib. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. | Anghenion y disgyblion fydd yn cael ei flaenoriaethu yn ystod pob cam o'r broses. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. | Mae sefyllfa argyfyngus o niferoedd isel yn ysgol Llanaelhaearn wedi arwain at adolygiad o sefyllfa'r ysgol ar gyfer y dyfodol. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. | Mae nifer o adrannau eraill wedi cael mewnbwn yn ystod y broses wrth werthuso'r opsiynau posibl. Yn ogystal, bu i ran-ddeiliaid perthnasol i'r ysgol fod a mewnbwn drwy gydol y broses hyd yma. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gwasanaethu. | Bydd y cynnig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, ac ymgynghoriad i blant.<br>Mae'r broses hyd yma wedi cynnwys cyfarfodydd adolygu lleol er mwyn ymgysylltu a budd-ddeiliaid perthnasol yr ysgol.<br>Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cynnwys y Corff Llywodraethu, staff, a rhieni Ysgol Llanaelhaearn. |

## 5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i gasgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

Cydnabyddir fod y cynnig hwn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Llanaelhaearn, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys yr ysgol amgen, ac felly mae cyswllt rhwng Ysgol Bro Plenydd a chymuned Llanaelhaearn eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Bro Plenydd yn cynnwys cymuned Llanaelhaearn, ble'n briodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.